# Pecyn Cymorth Cynhwysiant Digidol: Astudiaethau Achos

**Astudiaeth Achos: Ffurflenni Cofrestru Hyfforddiant Cymunedau Digidol Cymru.**

**‘Mae Cymunedau Digidol Cymru wedi darparu nifer o sesiynau hyfforddi i sefydliadau yng Nghymru i hybu sgiliau digidol a hyder yn eu gweithle. Fel rhan o hyn, ein nod yw cael syniad o sgiliau sylfaenol y mynychwyr trwy ffurflen gofrestru cyn-hyfforddiant. Mae hwn yn gofyn cwestiynau am sgiliau a hyder unigolion ar nifer o bynciau yn ymwneud â’u hyder a’u gallu gyda thechnoleg ac wrth ymwneud â’r byd ar-lein.**

**Yn dilyn ymlaen o'r hyfforddiant, anfonir ail arolwg at y cyfranogwyr i weld sut maent yn teimlo bod eu sgiliau a'u hyder wedi gwella yn syth ar ôl yr hyfforddiant, ynghyd â chyfle i roi adborth ar y sesiynau a'r hyfforddwyr. Mae hyn yn ein galluogi i gael syniad o ba mor ddefnyddiol yw'r sesiynau hyfforddi, a yw'r cynnwys yn berthnasol, a pha mor dda y mae'r hyfforddwyr yn cyfathrebu'r wybodaeth.**

**Yn ogystal a hyn, 3 mis ar ôl iddynt fynychu'r hyfforddiant, rydym yn anfon arolwg dilynol sy'n gofyn cwestiynau iddynt am sut maent yn ymgysylltu â thechnoleg a'r byd ar-lein ers iddynt fynychu'r hyfforddiant. Mae hyn yn rhoi persbectif hirdymor i ni ynghylch a yw'r hyfforddiant wedi bod yn ddefnyddiol i bobl ac wedi newid eu galluoedd a'u harferion mewn modd mwy parhaus’.**